# Gwerthwyr Llyfrau

Defnyddiwch y cliwiau ar y cardiau i ddatrys y broblem.

(1) Swydd Dewi yw gwerthu llyfrau i ysgolion. Mae yn 65 oed ac ar fin ymddeol. Ei ardal gwerthu yw Sir Trig ac mae'n mynd o gwmpas yr ardal i'w ddangos i'w olynydd, Huw.

(2) Dim ond ffyrdd hollol syth sydd yn Sir Trig.

(3) Mae Dewi bob amser yn teithio o gwmpas y trefi y bydd yn ymweld â hwy yn nhrefn y wyddor ac mae'n annog Huw i wneud yr un peth.

(4) Maent yn gadael cartref Dewi ac yn teithio tua'r De am Aberadref.

(5) Ar y map 1 : 500,000, y pellter o gartref Dewi i Aberadref yw 4 cm.

(6) Mae Bae Bodmas 40 km i'r Dwyrain a 30 km i'r De o Aberadref.



(7) Mae Caecorlat 20 km yn fwy i'r Gogledd na Bae Bodmas ac ar gyfeiriant 060° o Bae Bodmas.


(8) Mae Doldegolyn 14 km yn fwy i'r Dwyrain na Caecorlat. Mae ar gyfeiriant 045° o Caecorlat.

(9) Ar ôl gorffen ymweld â Doldegolyn maent yn dychwelyd i gartref Dewi gan ddefnyddio'r ffordd fyrraf.


(10) Lluniwch ddiagram o'u taith gan farcio cymaint o bellteroedd ac onglau ac sy'n bosibl. Nid oes rhaid iddo fod wrth raddfa.

(11) Defnyddiwch Theorem Pythagoras a thrigonometreg i gyfrifo cyfanswm y pellter a deithiwyd a'r cyfeiriant sydd ei angen i fynd adre'n ôl o Ddoldegolyn.

(12) Rhowch eich atebion terfynol i 3 ffigur ystyrlon.


Cartref Dewi
A
B
C
D

Graddfa 1 : 500,000




Pellter a deithiwyd $= 20 + 50 + 40 + 14\sqrt{2} + 90.073$
$= 220$ km, i 3 ffigur ystyrlon.

Cyfeiriant i fynd adref
= 280.2°, i 3 ffigur ystyrlon.